Adeiladu'r dyfodol

ASTUDIAETH ACHOS CYFLOGWYR

Powerlink Electrical Services Ltd

Jeremy Parkin, Cyfarwyddwr, Powerlink Electrical Services

Cyflwyniad

Contractwr gosodiadau trydanol sy'n cael ei redeg gan deulu yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn ne Cymru yw Powerlink Electrical Services Ltd. Maent wedi bod yn masnachu ers bron i 40 o flynyddoedd ac maent wedi gweithio ochr yn ochr â'r rhan fwyaf o'r diwydiannau mawr yn yr ardal. Wedi'i sefydlu'n wreiddiol gan Victor T Parkin yn dilyn ei ddiswyddiad yn yr 1980au cynnar, roedd Powerlink yn cael ei redeg ar y dechrau o ystafell wely fach yn ei gartref. Yn y blynyddoedd wedi hynny, dilynodd meibion Victor, Jeremy a Marcus Parkin ef i'r busnes, gan gymhwyso fel technegwyr trydanol drwy gynllun hyfforddi'r Cyd-fwrdd Diwydiannol. Ers hynny, mae'r busnes wedi tyfu ac mae bellach mewn adeilad 23,000 troedfedd sgwâr ym Mryngarw. Maent yn aelodau o'r ECA, wedi cofrestru gyda'r NICEIC, ac yn aelodau o'r Cyd-fwrdd Diwydiannol (JIB), sy'n sicrhau bod eu cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel a rhagoriaeth dechnegol.

Pwysigrwydd Cymwysterau

Er bod Powerlink yn gwmni o fewn y diwydiant adeiladu, mae eu sylfaen o gwsmeriaid yn y sector gweithgynhyrchu, ac yn y sectorau fferyllol, modurol, bwyd ac ati, yn bennaf. Felly, mae'n hanfodol bod gan eu gweithwyr nid yn unig y sgiliau i osod systemau trydanol yn ddiogel, ond bod ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae systemau trydanol cymhleth yn gweithio. Mae'r systemau hyn yn aml yn cynnwys rhwydweithiau dosbarthu foltedd isel ac offer rheoli prosesau. Yr unig ffordd i sicrhau bod systemau trydanol yn cael eu gosod yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn effeithiol yw darparu gwybodaeth gynhwysfawr o systemau trydanol o fewn yr amgylchedd adeiledig.

Beth fydd y cymwysterau newydd yn ei olygu i'r cwmni

Caiff pob un o'u gweithwyr eu graddio o dan y Cynllun Ardystio Electrodechnegol (ECS). Mae Powerlink yn edrych tuag at y cymwysterau newydd i arfogi pobl ifanc yn well i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, wrth wneud dewis gwybodus i ddilyn gyrfa yn yr amgylchedd adeiledig. Dylai'r cynnwys o fewn y cymwysterau hyn ategu gofynion safonol y diwydiant a darparu gweithwyr brwdfrydig, gwybodus iawn i'r diwydiant.

Rhesymau pam y byddwn yn argymell gyrfa yn y diwydiant

Jeremy Parkin, Cyfarwyddwr, Powerlink Electrical Services

"Mae'r sector electrodechnegol yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd modern. Heb ddylunio ac adeiladu da, gall yr amgylchedd adeiledig gael effaith negyddol ar ein lles bob dydd. Mae technolegau newydd ac arferion gweithio da yn lleihau ein hôl troed carbon, gan ddiogelu ein dyfodol. Mae gweithio yn y sector hwn yn werth chweil ac mae'n rhoi ymdeimlad o gyflawni, ac wrth gwrs, mae lefel uchel y wybodaeth dechnegol yn golygu bod yr yrfa'n talu'n dda."

Nathan Rimes, Prentis y Flwyddyn JTL De Cymru

"Dewisais y diwydiant trydanol oherwydd roeddwn yn gwybod y byddwn yn wynebu heriau gwahanol bob dydd. Roedd dod yn drydanwr o fudd i'm nodau personol ac roeddwn yn falch o ennill gwobr Prentis y Flwyddyn, Cymru."